# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llanfairpwll

Dyddiad yr arolygiad: 26/01/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn gymuned ddysgu ofalgar, amlieithog a chynhwysol lle mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn ei naws deuluol a chynhaliol. Mae'r perthnasoedd weithio gadarn a pharchus rhwng oedolion a disgyblion yn gryfder nodedig sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad clodwiw bron bob disgybl a'u hagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Nodwedd hynod arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol yw'r pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg a hyrwyddo Cymreictod trwy brofiadau cyfoes a chyffrous sy'n ehangu gorwelion disgyblion yn effeithiol. Mae'r diwylliant darllen cryf a'r cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain gwerthfawr yn cyfrannu'n sylweddol at eu hymgysylltiad a'u dyheadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gadarn. Caiff darpariaeth gynhwysol a chefnogaeth effeithiol i les emosiynol a chymdeithasol disgyblion effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ar draws ystod o fedrau o'u mannau cychwyn amrywiol, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae eu medrau llafar, llythrennedd, rhifedd a digidol yn datblygu'n llwyddiannus dros gyfnod.

Mae arweinwyr a staff yn darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a Chymreig sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yng nghymuned leol yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd cynhwysol yn gyson ac yn gwella dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a pharch tuag at eraill yn llwyddiannus.

Mae addysgu effeithiol a holi medrus gan staff yn arfogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn gyson a gwella'u gwaith yn effeithiol. O oedran cynnar, maent yn dangos annibyniaeth gynyddol ac yn cydweithio'n ddiwyd wrth eu dysgu. Ar draws y ddarpariaeth, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau yn gyson mewn cyd-destunau bywyd go iawn a chreadigol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth angerddol ac ysbrydoledig, a chaiff ei gefnogi'n fedrus gan dîm arwain cydwybodol a chorff llywodraethol ymroddedig. Mae systemau arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol yn grymuso staff i yrru gwelliannau cynaledig yn y ddarpariaeth a'r addysgu o fewn diwylliant cadarn o hunanwella parhaus. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig at ymwybyddiaeth gref arweinwyr o gryfderau'r ysgol a dealltwriaeth glir o'r agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen eu mireinio ymhellach. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach yn gryfder nodedig sy'n cefnogi gwaith a datblygiad parhaus yr ysgol yn llwyddiannus.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i weithredu prosesau hunanwerthuso hynod effeithiol yn gyson, gan rannu arferion effeithiol yn ehangach

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026